EIS(5)-02-19(P1)

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

National Assembly for Wales
Economy, Infrastructure and Skills Committee

Nusrat Ghani AS
Is-ysgrifennydd Seneddol (yr Adran Drafnidiaeth)
Tŷ'r Cyffredin
Llundain
SW1A 0NP

18 Mai 2018

Annwyl Nusrat,

Trafnidiaeth gymunedol

Rwy'n ysgrifennu atoch er mwyn rhannu pryderon Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, sy'n cynnwys Aelodau o'r holl bleidiau gwleidyddol a gynrychiolir yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru, ynghylch eich ymgynghoriad ar newidiadau arfaethedig i'r canllawiau ar ddefnyddio trwyddedau adran 19 ac adran 22 ym maes trafnidiaeth teithwyr ffyrdd ym Mhrydain Fawr.

Mae'r ymgynghoriad yn nodi bod gweithredwyr trafnidiaeth gymunedol yn darparu gwasanaethau hanfodol. Yng Nghymru yn 2014, amcangyfrifwyd bod tua dwy filiwn o deithiau wedi'u darparu, a oedd yn gyfwerth â chwe miliwn o filltiroedd. Yn aml, mae'r gwasanaethau hyn yn cludo'r bobl fwyaf agored i niwed a'r bobl fwyaf ynysig yn ein cymdeithas.

Yng Nghymru, gallai'r newidiadau a gynigir yn yr ymgynghoriad gael effaith sylweddol ar y sector ac ar deithwyr. Mae'r Pwyllgor eisoes wedi clywed bod gweithredwyr trafnidiaeth gymunedol yng nghefn gwlad Cymru yn awgrymu y bydd y newidiadau dan sylw yn eu gorfodi i gau. Mae ffigurau dangosol yn awgrymu y gallai llawer o'r prif ganolfannau poblogaeth ym Mhowys golli nid yn unig eu darparwyr trafnidiaeth gymunedol mwyaf, ond i lawer, eu hunig

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddESS@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddESS
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddEIS@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddEIS
0300 200 6565

ddarparwyr lleol. Dyma'r unig fodd o drafnidiaeth gyhoeddus sydd ar gael i lawer o deithwyr. Mewn ardaloedd eraill, ni fyddai unrhyw wasanaethau yn goroesi, a dim ond gwasanaethau ceir fyddai ar gael.

Mewn llawer o achosion, nid oes gan weithredwyr bysiau masnachol gerbydau hygyrch sydd â chyfarpar priodol ar gyfer cludo rhai o'r bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymunedau, ac nid oes gofyn iddynt gael cerbydau o'r fath. Golyga hyn, os bydd gwasanaethau trafnidiaeth gymunedol yn cael eu colli oherwydd bod gweithredwyr yn colli ffynonellau incwm ehangach, neu oherwydd eu bod yn wynebu costau uwch, ni fydd modd i ddarparwyr newydd ddod i'r amlwg. Rwy'n siŵr y bydd yr effaith ar fynediad at addysg a gofal iechyd yn glir i chi, yn ogystal â'r gost o ddarparu'r gwasanaethau datganoledig hyn.

Rhaid sicrhau nad yw unrhyw newidiadau a wneir i'r canllawiau dan sylw yn peryglu gwasanaethau sydd mor hanfodol i gymaint o bobl. Felly, dylid cynnal asesiad effaith cydraddoldeb manwl sy'n ystyried anghenion Cymru yn benodol, a hynny'n ddi-oed. Rhaid gweithredu mesurau priodol i liniaru effeithiau'r newidiadau hyn mewn ymgynghoriad â Llywodraeth Cymru a'r sector trafnidiaeth gymunedol yng Nghymru.

Mae'r Pwyllgor yn rhannu'r pryderon sydd wedi'u nodi yn y llythyr a anfonwyd atoch ar y mater hwn gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth ar 16 Ebrill 2018. Er hwylustod, mae'r llythyr hwnnw wedi'i atodi i'r llythyr hwn.

Mae effeithiau'r ymgynghoriad hwn eisoes yn cael eu teimlo yng Nghymru. Mae rhai gweithredwyr trafnidiaeth gymunedol eisoes yn adolygu eu gallu i ddarparu gwasanaethau allweddol yn y dyfodol yn sgil y cynigion dan sylw. Mae'r Gymdeithas Drafnidiaeth Gymunedol yn amcangyfrif bod gweithredwyr trafnidiaeth gymunedol yng Nghymru yn cynrychioli 6.25 y cant o holl ddeiliaid trwyddedau adran 19 ac adran 22 ym Mhrydain (mae cyhoeddiad gan y Gymdeithas Drafnidiaeth Gymunedol wedi'i atodi i'r llythyr hwn). O ran y gweithredwyr hyn:

• Bydd y cynigion yn effeithio ar 95 y cant o weithredwyr trafnidiaeth gymunedol yng Nghymru, os ydynt yn cael eu gweithredu ar eu ffurf bresennol;

• Bydd angen i 28 y cant o weithredwyr trafnidiaeth gymunedol yng Nghymru newid i drwydded PSV 'O', sef cyfanswm o 110 o weithredwyr a 570 o gerbydau;

• Bydd gofyn i 84 y cant o weithredwyr trafnidiaeth gymunedol yng Nghymru sicrhau bod eu gyrwyr yn cael tystysgrif cymhwysedd proffesiynol i yrwyr (Driver CPC), sef cyfanswm o 331 o weithredwyr. Gan ddefnyddio data MiDAS, mae gan gyrff 10 o yrwyr ar gyfartaledd. Felly, mae'n bosibl y bydd y newidiadau hyn yn effeithio ar gyfanswm o 3,310 o yrwyr.

Yn seiliedig ar y ffigurau hynny, mae'r Gymdeithas Drafnidiaeth Gymunedol yn amcangyfrif mai cost ariannol gweithredu'r cynigion ar gyfer gweithredwyr yng Nghymru ar eu ffurf bresennol yw £23,168,755. Mae'r ffigur hwn yn llawer uwch na'r swm o £250,000 yr ydych wedi'i neilltuo i liniaru effaith y newidiadau hyn ledled Prydain. Rydym hefyd ar ddeall bod yr arian hwn ar gyfer darparu cyngor ynghylch y newid yn unig, yn hytrach nag ariannu'r gwir gost o weithredu'r newidiadau y bydd angen eu gwneud. Nodwn nad oes gan Lywodraeth Cymru na'r Gymdeithas Drafnidiaeth Gymunedol eglurder ynghylch pa gyfran o'r gronfa hon a gaiff ei dyrannu i Gymru.

Rodd yn destun pryder i'r Pwyllgor glywed bod y cynigion dan sylw eisoes yn destun camau gorfodi yng Nghymru, a hynny cyn eu bod yn cael eu cytuno a'u gweithredu. Yn achos trwyddedau a gyhoeddir gan Swyddfa'r Comisiynwyr Traffig, deallwn fod y broses ar gyfer cyhoeddi trwyddedau yn un weinyddol i raddau helaeth, ac nid yw'n ymwneud yn uniongyrchol â Nick Jones, Comisiynydd Traffig Cymru. Mae tystiolaeth bod staff y Comisiynwyr Traffig yn Leeds eisoes wedi gwrthod ceisiadau am drwyddedau adran 19 ac adran 22 a'u bod, mewn un achos, wedi cynghori gweithredwr bod yn rhaid iddo newid ei drwydded i drwydded O, a hynny o fewn dau fis. Mae'r sefyllfa hon hefyd yn awgrymu bod gwahanol gyrff sy'n cyhoeddi trwyddedau, o bosibl, yn defnyddio safonau gwahanol. Er gwaetha'r ffaith bod yr arfer yn unol â chanllawiau yr Adran Drafnidiaeth, a gafodd eu

diweddaru ym mis Chwefror 2018, rydym hefyd yn ymwybodol o achosion lle mae'r heddlu yn ceisio gorfodi newidiadau drwy ddefnyddio hysbysiadau cosb.

Rydym yn pryderu bod y dull o weithredu'r newid hwn, i bob golwg, yn cael ei gydlynu'n wael ac yn achosi dryswch, a hynny er gwaetha'r ffaith bod yr Adran Drafnidiaeth wedi bod yn ymwybodol o'r posibilrwydd y byddai angen newid am beth amser o ganlyniad i heriau cyfreithiol.

Credwn ei bod yn hanfodol eich bod yn cymryd camau yn awr i egluro statws y canllawiau cyfredol a'r dull gweithredu ynghylch gorfodi – yn arbennig mewn perthynas â chyrff sy'n cyhoeddi trwyddedau a'r heddlu. At hynny, rydym yn galw am gyfnod pontio priodol a sylweddol a fydd yn rhoi cyfle i weithredwyr gydymffurfio ag unrhyw ganllawiau newydd ac i osgoi sefyllfa hynod ansicr a allai gael effaith sylweddol ar ddarpariaeth trafnidiaeth gymunedol yng Nghymru ac ar deithwyr.

Mae llythyr Ysgrifennydd y Cabinet yn ei gwneud yn glir mai chi sy'n gyfrifol am y penderfyniad i ddiwygio'r canllawiau hyn. Nid yw'r gyfundrefn ganiatadau wedi'i datganoli ar hyn o bryd. Mae hygyrchedd trafnidiaeth hefyd yn faes nad yw wedi'i ddatganoli. Felly, nid yw'r prif bwerau ar gyfer mynd i'r afael â'r materion sy'n codi yn sgil y newidiadau arfaethedig yn gorwedd yng Nghymru, er bod effaith y newidiadau hynny eisoes yn cael eu teimlo yma.

Felly, mae'r Pwyllgor yn galw arnoch i gefnogi'r sector pwysig hwn yng Nghymru a sicrhau nad yw'r gwasanaethau hyn yn cael eu colli, gan y byddai hynny'n arwain at ymdeimlad o fod ar goll ymhlith pobl sy'n agored i niwed ac yn ddifreintiedig mewn cymunedau ledled Cymru. Mae'r Pwyllgor yn eich annog i ailystyried y cynigion hyn ac i gydweithio â Llywodraeth Cymru a'r sector er mwyn deall y gwasanaethau hanfodol hyn yng Nghymru yn well a'u diogelu, a hynny drwy reoli a lleihau'r effaith ar wasanaethau.

Byddaf yn anfon copi o'r llythyr hwn at Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Llywodraeth Cymru, Pwyllgor Dethol Tŷ'r Cyffredin ar Drafnidiaeth, a holl Aelodau Seneddol Cymru. Edrychaf ymlaen at eich ymateb.

Yn gywir,

Russell George AC
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Department for Transport

From the Parliamentary
Under Secretary of State
Nusrat Ghani MP

Great Minster House
33 Horseferry Road
London
SW1P 4DR

Tel: 0300 330 3000
E-Mail: nusrat.ghani@dft.gov.uk

Web site: www.gov.uk/dft

Our Ref: MC/227006

Russell George AM
Chair Economy, Infrastructure and Skills Committee
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

17 DEC 2013

Dear Russell,

Thank you for your letter of 18 May expressing the concerns of the Economy, Infrastructure and Skills Committee, about community transport in Wales. I am sorry for the delay in responding.

The Department fully recognises the importance of the community transport sector. Community transport operators provide vital services that encourage growth and reduce isolation by linking people and communities to existing transport networks, jobs, education, shops and services.

The UK Government shares the Economy, Infrastructure and Skills Committee's wish to maintain the provision of high quality and safe local community transport for vulnerable passengers. I recognise that clarity over how the licensing regime applies to community transport operators is needed. I know that this is an important issue not only to those commissioning and operating services but also to the local communities who rely on the services.

As you may be aware, it is compliance with a directly applicable EU Regulation (1071/2009) which is the issue. When the Regulation was negotiated, the Government's view was that community transport operators would fall under the exemption for operators engaged in road passenger transport exclusively for 'non-commercial' purposes. This was on the basis that 'not-for-profit' equated to 'non-commercial'. However, this has been challenged, with some commercial operators claiming that they are facing unfair competition from community transport operators.

Through the consultation workshops and consultation responses we have sought to ensure that we are aware of any issues specific to the community transport sector in Wales. On 20 July 2018, the Department issued an Interim Summary of Responses to its consultation, which can be found at: https://www.gov.uk/government/consultations/section-19-and-22-permits-how-to-apply-eu-regulation-10712009. The Interim Summary explained that the consultation resulted in a large number of lengthy and complex responses. From these it is clear that there is no consensus amongst stakeholders on how the Regulation applies to the community transport sector. I can assure you that the Department is working to address all the legal and other issues raised by the Regulation and I intend to announce the Government's response in the next few months.

While the Department decides its final approach, we have issued guidance that it would in general be premature for any local authority to end or withhold community transport contracts. The Department wrote to all local authorities in England, Scotland and Wales during May 2018 to reiterate that message, which was also emphasised in the Interim Summary of Responses.

Your letter refers to decisions made by the Traffic Commissioner for Wales and the police. The Traffic Commissioners are independent of Government, reflecting their quasi-judicial role. Decisions on the suitability of individual applicants for permits are for them to determine, and not something in which Ministers can intervene. Similarly, the Department cannot interfere with the rightful exercise of police powers. If you would like further information on any of these cases you will need to contact the relevant enforcement bodies.

Yours sincerely,

NUSRAT GHANI